Dŵr Cymru
Welsh Water

# EIN CYNLLUN SYCHDER



## DIOGELU EIN HADNODDAU DŴR YFED MEWN TYWYDD SYCH

# CYFLWYNIAD

## Yn Dŵr Cymru, mae arnom ddyletswydd i ddarparu dŵr yfed glân, diogel i'n tair miliwn o gwsmeriaid bob dydd. Rydyn ni'n falch o ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn er budd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd ar draws ein hardal weithredu yng Nghymru a rhannau o Swydd Henffordd.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda nifer o bartneriaid allweddol gan gynnwys Grŵp Sychder Cymru Gyfan i fonitro'r potensial a'r risg o amodau sychder.

Mae cyfnodau hir o dywydd cynnes a sych yn cael effaith ar adnoddau dŵr fel ein cronfeydd. Mae Cynllun Sychder Dŵr Cymru yn amlinellu sut rydyn ni'n rheoli cyflenwadau dŵr yn ystod cyfnodau sych i sicrhau gwasanaeth parhaus i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd yr un pryd.

Mae'r cynllun yn cynnwys monitro lefelau dŵr a phatrymau tywydd i ragweld amodau sychder. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a diweddaru'r cynllun hwn.

Rydyn ni'n monitro ein hadnoddau dŵr yn gyson ac yn gweithio'n galed i reoli'r risg o sychder ar draws ein hardal weithredu. Mae ein monitro gofalus yn sicrhau ein bod yn rhagweithiol ac yn barod i ehangu ein hymateb yn raddol wrth i sefyllfaoedd ddatblygu ym mhob un o'n 23 o Barthau Dŵr. Mewn 11 o'n 23 o Barthau Adnoddau Dŵr, rydyn ni wedi nodi y gallai fod angen Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro fel cam angenrheidiol i reoli cyflenwadau i osgoi mynd i sychder difrifol neu fesurau brys.  Mae pob parth yn unigryw, gyda sbardunau uwchgyfeirio gwahanol drwy'r camau yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, seilwaith a thopograffeg.

Ardaloedd Gweithredu Dŵr Cymru



# EIN HADNODDAU DŴR

Rydyn ni'n cyflenwi tua 800 miliwn litr o ddŵr i dair miliwn o gwsmeriaid bob dydd - tua'r un faint ag y byddai ei angen i lenwi 320 o byllau nofio Olympaidd.

Mae gennym ni 91 o gronfeydd dŵr. Mae'r cronfeydd hyn yn amrywio o ran maint sy'n golygu y gall rhai fod yn fwy tueddol o wynebu problemau yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych.

Mae tua 95% o'n hadnoddau dŵr yn ddŵr wyneb yn wreiddiol - dŵr sy'n dod o gael ei storio mewn cronfeydd neu ddŵr sy'n cael ei dynnu o afonydd. Prin yw ein dibyniaeth ar gyflenwadau dŵr daear.

Gall y ddibyniaeth hon ar ddŵr wyneb ein gwneud ni'n fwy tueddol o wynebu problemau mewn cyfnodau byr o lawiad isel gan fod lefelau cronfeydd dŵr ac afonydd yn newid yn gyflymach na dŵr daear. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am lefelau afonydd.

Mae Cymru'n cael llawer mwy o law na rhannau eraill o'r DU. Ond eto, gan fod natur ein defnydd tir yn wahanol gydag 82% o'n tirwedd yn dir gwledig, mae 97% o'r glaw rydyn ni'n ei gael yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Mae hyn yn golygu mai dim ond 3% sy'n cael ei ddal gan ein seilwaith i'w gyflenwi i gwsmeriaid. Mae hyn mewn cyferbyniad â de-ddwyrain Lloegr, lle mae hyd at 50% o'r glaw sy'n disgyn yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi dŵr i gwsmeriaid.

Mae'r heriau hyn yn golygu, er y glawiad uchel, y gall sychder fod yn risg sylweddol y mae angen i ni gynllunio ar ei gyfer.

Bob wythnos, rydyn ni'n monitro ein parthau dŵr yn ôl y dangosyddion canlynol:

- Glawiad
- Llif afonydd
- Lefelau dŵr daear
- Lefelau cronfeydd dŵr
- Y galw am ddŵr

Mae ein Cynllun Sychder yn disgrifio sut y byddwn ni'n cynnig cyflenwad diogel o ddŵr i'n cwsmeriaid, ac yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd hefyd.

Mae'r cynllun yn nodi'r camau y byddwn ni'n eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl sychder, gan gynnwys y camau rydyn ni'n eu dilyn wrth i'r sefyllfa newid ar gyfer pob parth.

# BETH RYDYN NI'N EI WNEUD I HELPU'R SEFYLLFA

Mae ein timau'n gweithio'n galed i sicrhau ein bod ni'n cymryd pob cam posibl i wneud defnydd mor effeithlon â phosibl o ddŵr ar draws ein hardaloedd gweithredu, gan gynnwys:

**Canfod a thrwsio gollyngiadau i leihau faint o ddŵr sy'n cael ei golli o'r rhwydwaith.**

Mae timau'n gweithio ledled y wlad yn trwsio gollyngiadau cyn gynted â phosibl. Ar hyn o bryd mae ein timau'n trwsio tua 700 o ollyngiadau bob wythnos a gall cwsmeriaid helpu trwy roi gwybod i ni am unrhyw ollyngiadau. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn ni'n lleihau gollyngiadau gan 25% ac rydyn ni'n gwario tua £400m ar osod pibellau newydd a thrwsio gollyngiadau i gefnogi'r uchelgais hon.

**Storio mwy o ddŵr.**

**Ailddiffinio parthau a defnyddio tanceri i symud dŵr i ardaloedd lle mae'r galw'n uchel.**

**Gwaith parhaus i uwchraddio ein rhwydwaith dŵr.**

**Cynyddu cynhyrchiant dŵr yn ein gwaith trin i symud dŵr o amgylch y system i gadw'r lefelau'n ddigonol lle mae'r galw uchaf.**

# CAMAU SYCHDER

Rydyn ni'n dilyn pum cam gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Sychder, ac yn eu rheoli trwy fesurau rheoli'r galw. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill ar bob cam fel rhan o Grŵp Cyswllt Sychder Cymru.

1

### Gweithrediad Arferol

Dyma'r sefyllfa arferol lle rydyn ni'n gweithredu fel yr arfer. Fodd bynnag, gall ein 23 o barthau adnoddau dŵr ledled Cymru symud i wahanol gamau ar wahanol adegau. Mae'r tywydd yn normal ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn heb unrhyw bryderon o ran y cyflenwad na'r galw, ond mae'r adeg o'r flwyddyn yn golygu bod angen i ni ddechrau anfon negeseuon at gwsmeriaid am bwysigrwydd arbed dŵr.

2

### Sychder datblygol

Rydyn ni'n profi amodau sych, ac mae'r rhagolygon yn dangos bod y tywydd sych, cynnes am barhau. Mae adnoddau dŵr yn dechrau dangos arwyddion o sychder datblygol ond dim ond mewn rhai ardaloedd lleol iawn.

3

### Sychder

Oherwydd cyfnod hir o dywydd sych, mae adnoddau dŵr yn is nag y byddem yn ei ddisgwyl ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn. I ddiogelu cyflenwadau, gallai gwaharddiad ar ddefnydd dros dro fod ar waith fel cam angenrheidiol mewn rhai ardaloedd.

Dim ond os yw'r ardal wedi symud i statws 'Sychder' y caiff cyfyngiadau dŵr eu cyflwyno. Os bydd hyn yn digwydd, byddem yn cysylltu â chwsmeriaid yn yr ardal honno yn uniongyrchol i'w rhybuddio am unrhyw gyfyngiadau ac egluro beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw.

4

### Sychder Difrifol

Cyfnod hir o dywydd sych yn parhau gan arwain at adnoddau dŵr eithriadol o isel. Bydd mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd i gynnal cyflenwadau i gwsmeriaid gyda mesurau defnydd dros dro ar waith.

5

### Mesurau Brys

Mae adnoddau dŵr bellach wedi cyrraedd lefelau lle mae'n amhosibl cynnal cyflenwad rheolaidd i gwsmeriaid felly mae angen gweithredu mesurau brys. Gallai hyn gynnwys defnyddio safbibellau a thoriadau wedi'u hamseru i gyflenwadau dŵr neu drefniadau rheoli pwysedd eang wrth ystyried yn llawn yr effaith bosibl ar ansawdd dŵr mewn ardaloedd penodol o'n rhwydwaith cyflenwi dŵr.

6

### Diwedd Sychder

Trwy weithio gyda'n gilydd yn ystod tywydd sych eithriadol o heriol, gallwn gyhoeddi diwedd yr amodau sychder a'r cyfyngiadau dros dro sydd wedi'u rhoi ar waith.

Ar bob cam o'r cynllun sychder, bydd ein cyfathrebiadau â'n cwsmeriaid yn dod yn fwy rheolaidd a bydd y neges yn newid. Byddwn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd arbed dŵr ac awgrymiadau hawdd i gwsmeriaid eu gweithredu yn eu bywydau.

## BETH ALLWCH CHI EI WNEUD I HELPU

Mae'n bwysig i ni weithio gyda'n gilydd i ddiogelu adnoddau dŵr. Dydyn ni ddim yn gofyn i bobl beidio â defnyddio dŵr; rydyn ni'n gofyn iddyn nhw feddwl am sut maen nhw'n ei ddefnyddio ac arbed dŵr lle bynnag y bo modd gan ddefnyddio ein hawgrymiadau isod.

### ARBED DŴR YN YR YSTAFELL YMOLCHI

- Defnyddiwch y gawod yn lle'r bath. Os gallwch chi leihau eich amser yn y gawod o 10 munud i 4 munud, gallwch chi arbed 15,000 litr y flwyddyn, a fyddai hefyd yn arbed tua £45 ar filiau dŵr cwsmeriaid sy'n defnyddio mesurydd! Heb sôn am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio i wresogi'r dŵr.
- Peidiwch â gadael y tap i redeg wrth frwsio'ch dannedd – gallai cau'r tap wrth frwsio arbed 6,000 litr o ddŵr y flwyddyn, sy'n tua £20 y flwyddyn mewn arbedion.
- Beth am ffitio pen cawod sy'n gwneud defnydd effeithlon o ddŵr? Gall pen cawod ynni-effeithlon arbed tua 10,000 litr o ddŵr y flwyddyn o gymharu â phen cawod safonol! I gael eich un chi, crëwch broffil ar ein cyfrifiannell Ffitrwydd Dŵr.
- Os oes gennych chi doiled fflysh deuol, edrychwch i weld pa fotwm yw'r fflysh mawr, a defnyddiwch y fflysh mawr dim ond pan fydd angen. Mae'r fflysh mawr yn defnyddio bron i ddwywaith cymaint o ddŵr â'r fflysh bach. A chofiwch - os yw'n felyn, gall aros am dipyn!
- Mae toiled sy'n gollwng yn gwastraffu rhwng 200 a 400 litr y dydd neu 73,000 i 146,000 litr y flwyddyn. Gallai ei drwsio arbed rhwng £219 a £438 y flwyddyn i chi. Gall ein tîm Cartref drwsio toiled sy'n gollwng am ddim.

Mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr



## ARBED DŴR YN Y GEGIN

- Defnyddiwch fowlen olchi neu blwg wrth olchi llestri yn hytrach na gadael i'r tap redeg. Ar ôl i chi orffen golchi'r llestri, cadwch y dŵr a ddefnyddiwyd i olchi unrhyw blastigau neu wydr cyn eu hailgylchu.
- Trwsiwch unrhyw dapiau sy'n gollwng i osgoi gwastraffu dŵr. Oeddech chi'n gwybod y gall tap sy'n diferu wastraffu dros 7,000 litr y flwyddyn? Gallai hyn gostio tua £20 y flwyddyn i chi os nad yw'n cael ei drwsio.
- Arhoswch nes bod gennych chi lwyth llawn cyn defnyddio'r peiriant golchi llestri a defnyddiwch y gosodiad eco bob amser - gall hyn arbed dros £15 y flwyddyn i chi.
- Llenwch y tegell gyda'r dŵr sydd ei angen arnoch yn unig - mae gorlenwi'r tegell nid yn unig yn gwastraffu trydan ond, os yw'r dŵr nad yw'n cael ei ddefnyddio'n cael ei daflu i ffwrdd bob tro, gall gostio hyd at £5 i chi ar eich bil dŵr yn unig os ydych chi'n defnyddio mesurydd.
- Cadwch ddŵr tap yn yr oergell i allu mwynhau diod oer unrhyw bryd heb redeg y tap.
- Os ydych chi'n prynu teclyn newydd sy'n defnyddio dŵr, cofiwch edrych i weld pa mor effeithlon yw ei ddefnydd o ddŵr.



## ARBED DŴR YN YR ARDD

- Defnyddiwch gan dŵr neu bibell ddŵr sy'n cael ei dal â llaw (gyda gwn) yn hytrach na chwistrellwr gardd.
- Mae casgen ddŵr yn ffordd wych o gasglu dŵr glaw i'w ddefnyddio yn yr ardd – ar gael o'n siop Cynhyrchion.
- Ychwanegwch grisialau cadw dŵr i botiau, tybiau a basgedi crog i helpu i gadw compost yn llaith.
- Peidiwch â thorri lawntiau'n rhy fyr a cheisiwch greu tomwellt gyda'r gwair wedi'i dorri i wella iechyd y pridd.

Er bod glaw'n disgyn yn rhydd o'r awyr, rydyn ni'n gweithio'n galed ac yn rhoi llawer o gariad ac egni i mewn i gyflenwi pob diferyn.



## DARGANFOD MWY

I gael y newyddion diweddaraf am dywydd sych, ewch i **dwrcymru.com/tywyddsych**

Mae ein Cynllun Sychder llawn i'w weld ar ein gwefan: **dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/draft-drought-plan-2025**

I gysylltu â'n tîm gydag unrhyw ymholiadau penodol, ewch i **contact.dwrcymru.com/cy-gb**

Dŵr Cymru
Welsh Water